**Rhif: 8**

| | |
| --- | --- |
| **Cais Rhif:** | **C16/1353/17/HT** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **26/10/2016** |
| **Math y Cais:** | **Hysbysiad Telathrebu** |
| **Cymuned:** | **Llandwrog** |
| **Ward:** | **Groeslon** |

| | |
| --- | --- |
| **Bwriad:** | **GOSOD TWR 18M 'LATTICE' GYDA 3 ANTENNA, 1 LLOEREN CYFATHREBU AR EI BEN, A 2 GABINET OFFER, 1 CABINET MESUR A DATBLYGIAD CYSYLLTIOL SY'N CYNNWYS FFENS 2.1M O UCHDER** |
| **Lleoliad:** | **TIR MGW COAL MERCHANTS, LLIFON YARD, GROESLON, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7DE** |

| | |
| --- | --- |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATAU GYDAG AMODAU** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Cais i osod tŵr telethrebu 18m 'lattice' gyda 3 antenna, 1 lloeren cyfathrebu ar ei ben, 2 gabinet offer, 1 cabinet mesur a datblygiad cysylltiol ar y llawr sy'n cynnwys codi ffens 2.1m o uchder oddi amgylch yr offer.

1.2 Mae’r safle wedi ei leoli ar gyrion pentref Y Groeslon, oddi mewn i safle sydd wedi ei sefydlu fel iard lo/adeiladu ers nifer o flynyddoedd. Mae mynediad cerbydol i mewn i’r safle oddi ar y briffordd gyfagos i’r de gyda wal garreg/bric a ffens yn amgylchynu’r iard ei hun. Mae llwybr sefydledig Lôn Eifion yn rhedeg heibio ffin ddwyreiniol y safle gyda thafarn ger llaw yn ogystal. Mae tai preswyl yr ochr bellaf i’r ffordd gyhoeddus i gyfeiriad y de tra bod caeau amaethyddol agored i gyfeiriad y gogledd a’r gorllewin gyda chefnffordd yr A487 ymhellach draw i’r un cyfeiriad. Mae nifer o goed sefydledig ar dir cyfochrog Lôn Eifion i gyfeiriad y gogledd a’r gogledd ddwyrain.

1.3 Mae’r bwriad yn golygu codi codi tŵr 'lattice' 18m o wneuthuriad dur ac wedi ei orffen mewn lliw llwyd i gynnwys 3 antenna ar ei ben gyda lloeren gyfathrebu. Yn ogystal, codir 3 cabinet safonol o amrywiol faint ger gwaelod y tŵr gyda ffens 2.1 gwyrdd tywyll yn amgylchynu.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni’r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

### 2.3 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:

POLISI B23 – MWYNDERAU - Diogelu mwynderau’r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau’r ardal leol.

POLISI B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU - Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy’n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

POLISI C3 - AIL-DDEFNYDDIO SAFLEOEDD A DDEFNYDDIWYD O’R BLAEN - Cymeradwyir cynigion sy’n rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio tir neu adeiladau a ddatblygwyd o’r blaen a leolir o fewn neu o gwmpas ffiniau datblygu cyn belled ag y bo’r safle neu’r adeilad a’r defnydd yn addas.

POLISI CH20 - OFFER TELATHREBU - Caniateir cynigion am offer telathrebu fydd angen caniatâd cynllunio os gellir cydymffurfio a chyfres o feini prawf penodol sydd yn ymwneud a materion gweledol, amgylcheddol ac iechyd. Dylid ceisio defnyddio strwythurau neu adeiladau presennol addas a dylid symud yr offer telathrebu o'r safle os na fydd ei angen mwyach.

POLISI CH22 - RHWYDWAITH BEICIO, LLWYBRAU A HAWLIAU TRAMWY - Gwarchodir pob rhan o'r rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy trwy annog cynigion fydd yn eu hymgorffori yn foddhaol o fewn y datblygiad a thrwy wahardd cynlluniau i ymestyn y rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy. Os na fydd hyn yn bosib bydd yn rhaid gwneud darpariaeth briodol i wyro'r llwybr neu i ddarparu llwybr newydd boddhaol.

POLISI CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD - Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, sydd wrthi'n cael ei baratoi, yn destun Archwiliad Cyhoeddus ar hyn o bryd. Nid yw'n ystyriaeth cynllunio perthnasol ar hyn o bryd ar gyfer gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio.

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru fersiwn 8 2016
Nodyn Cyngor Technegol 19: Telathrebu

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Mae hanes cynllunio amrywiol i'r safle hwn yn ymwneud yn bennaf ynglŷn â'i ddefnydd fel iard lo a storio deunyddiau adeiladu.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Heb eu derbyn |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim sylw |
| Uned Hawliau Tramwy: | Heb eu derbyn |
| Dŵr Cymru: | Heb eu derbyn |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Heb eu derbyn |
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn: | Heb eu derbyn |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben ac ni dderbyniwyd llythyr gohebiaeth fewn y cyfnod ymgynghori statudol. |

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae gofynion polisi C3 yn cymeradwyo cynigion sy'n rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio tir neu adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen a leolir o fewn neu o gwmpas ffiniau datblygu cyn belled ag y bo'r safle neu'r adeilad a'r defnydd yn addas. Mae'r safle wedi ei leoli tu mewn i ffin datblygu pentref Y Groeslon ac ystyrir bod egwyddor y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol gan ei fod yn gwneud defnydd da o ran o safle sydd eisoes wedi ei ddatblygu (Tir Llwyd) a'i fod trwy hynny yn cydymffurfio gyda gofynion cyffredinol polisi C3.

5.2 Yn yr un modd, mae polisi CH20 yn caniatáu cynigion ar gyfer seilwaith newydd ac offer telathrebu yn ddarostyngedig i ystyriaeth lawn o feini prawf penodol ynghlwm a'r polisi yma, sef:

1. Bod y datblygiad yn defnyddio strwythurau (gan gynnwys offer telathrebu eraill) neu adeiladau presennol addas oni bai y gellir profi'n glir na fyddai hynny'n ymarferol a phriodol;

2. Na fydd graddfa, lleoliad, dyluniad ac amlygrwydd y datblygiad yn achosi niwed arwyddocaol i'r dirwedd, yr arfordir, bioamrywiaeth, neu ardal/ nodwedd hanesyddol, yn arbennig o fewn neu wrth ymyl adeiladau/ ardaloedd dynodedig;

3. Bod y datblygiad wedi ei ardystio i gydymffurfio â chanllawiau ICNIRP;

4. Os na fydd angen yr offer telathrebu mwyach, ei fod yn cael ei symud o'r safle a bod gwaith adfer priodol yn cael ei wneud.

5.3 Credir fod egwyddor y datblygiad yn dderbyniol ag yn cydymffurfio gyda gofynion cyffredinol y polisïau uchod.

**Mwynderau gweledol**

5.4 Gyda'r math yma o ddatblygiad, mae'n anorfod y byddai'r strwythur arfaethedig yn rhannol weladwy o fannau cyhoeddus oherwydd yr angen iddo fod mewn lleoliad weddol agored er mwyn sicrhau y byddai'n gweithio i'w gapasiti llawn. Er hynny, credir yn yr achos yma fod cefn len naturiol bresennol o edrych at y safle o gyfeiriad y de, de-orllewin a'r de ddwyrain oherwydd presenoldeb coed aeddfed ar hyd ochrau Lôn Eifion sydd yn rhedeg heibio'r safle gerllaw.

5.5 Er bod y safle yn ymylu a chefn gwlad agored, mae'r ardal gyfagos yn un preswyl gyda nifer o amrywiol dai o ran maint ag edrychiadau. Mae nifer o strwythurau main ag uchel yn bodoli eisoes yn yr ardal, megis polion trydan a golau stryd.

5.6 O edrych at y safle o gyfeiriad y gogledd, er yn fwy agored i raddau, mae tai preswyl a ffurf adeiledig y pentref ar y gorwel ac felly ni chredir fod y lleoliad arfaethedig yn gwbl agored o safbwynt yr hyn sydd i weld oddi amgylch. Credir felly fod gofynion cyffredinol polisi B23 yn cael eu bodloni.

5.7 Mae gorffeniad y mast mewn llwyd, sydd yn yr achos yma yn dderbyniol oherwydd credir y byddai yn ymdoddi yn well gyda'r gorffeniad hwn. Mae'r offer cysylltiol sef y cabinets a'r ffens oddi amgylch, yn ogystal yn dderbyniol oherwydd eu gorffeniad ac yn bennaf, oherwydd bod yr iard bresennol ar lefel tir sydd yn is na Lôn Eifion

gerllaw ac estron nac yn weladwy. O ran gorffeniadau, credir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt gofynion polisi B25.

5.8 Strwythur main a syml yw hwn yn y bôn, sydd yn annhebygol o gael effaith amlwg hir dymor ar fwynderau gweledol yr ardal leol. Credir fod y bwriad o safbwynt yr elfen yma yn dderbyniol ac felly yn bodloni gofynion faen yr ail faen prawf o Bolisi CH20 sy'n datgan na ddylai'r datblygiad gael effaith niweidiol sylweddol ar y dirwedd.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.9 Mae gwybodaeth wedi ei gyflwyno gyda'r cais sydd yn rhestru safleoedd eraill ger y pentref a ystyriwyd cyn penderfynu ar y safle yma. Gwelir fod nifer o'r rhain yn cael eu diystyru oherwydd effaith niweidiol posib ar fwynderau preswyl a chyffredinol o fewn yr ardaloedd hynny.

5.10 Ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol o safbwynt sŵn, ac na fyddai yn amharu ar fwynderau cyffredinol a phreswyl yr ardal gyfagos o safbwynt yr agwedd yma. Ni dderbyniwyd sylwadau ynglŷn ag effaith y bwriad o safbwynt iechyd cyhoeddus, ni chredir felly fod y bwriad yn annerbyniol o safbwynt trydydd maen prawf polisi CH20.

5.11 Credir fod y safle yma, i ffwrdd o dai preswyl ac o fewn safle sydd eisoes wedi ei ddatblygu, yn lleoliad addas ar gyfer y math yma o ddatblygiad a'i fod oherwydd hynny yn dderbyniol o safbwynt ei effaith ar fwynderau cyffredinol a phreswyl yr ardal ag yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion polisi B23.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.12 Mae lleoliad y strwythur a'r holl offer cysylltiol ym mhen pellaf yr iard bresennol, ni fyddai yn amharu mewn unrhyw ffordd ar symudiadau cerbydau i mewn ac allan o'r safle ei hun. Er y byddai yn rhannol weladwy o ffyrdd cyhoeddus cyfagos, ni wrthwynebir y bwriad gan yr Uned Drafnidiaeth ac felly ni chredir fod unrhyw bryder o safbwynt cydymffurfio gyda gofynion polisi CH33.

5.13 Mae'r safle wedi ei leoli o fewn oddeutu 5m i Lôn Eifion ar dir sydd fymryn yn is mewn lefel, ni chredir y byddai yn amharu mewn unrhyw ffordd amlwg ar ddefnyddwyr y llwybr poblogaidd yma ac felly ni fyddai yn annerbyniol o safbwynt gofynion polisi CH22 sydd yn gwarchod llwybrau fel hyn.

**Unrhyw ystyriaethau eraill**

5.14 Cyflwynwyd ymholiad cyn cyflwyno cais ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig hwn. Cynhaliwyd ymgynghoriaeth gydag Uned Bioamrywiaeth y Cyngor ar y pryd, fe gadarnhawyd na fyddai pryder o safbwynt effaith niweidiol ar rywogaethau wedi eu gwarchod ac na fyddai angen cyflwyno archwiliad ecolegol i gefnogi'r cais.

## 6. Casgliadau:

6.1 O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol, ni chredir fod y bwriad i godi mast telathrebu fel y ceir yma yn annerbyniol a'i fod yn cydymffurfio gyda gofynion y polisïau perthnasol fel y nodir uchod.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatau – amodau

1. Amser
2. Cydymffurfio gyda chynlluniau
3. Tynnu'r mast a'r offer cysylltiol ac adfer y tir os ydi'r defnydd yn dod i ben.
4. Amod lliw y mast a'r antena/lloeren
5. Amod lliw y cabinet a'r ffens